# Siarad am Dlodi Plant yng Nghymru

## Dweud eich dweud



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

# Helo

## Mae byw mewn tlodi yn gwneud bywyd yn anoddach – yn enwedig i blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael bywydau iach a hapus. Rydyn ni am iddyn nhw gael popeth maen nhw ei angen.

Ond mae llawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

Yn 2015 fe wnaethom ni ysgrifennu Strategaeth Tlodi Plant i Gymru, ond mae llawer wedi newid ers hynny:

- Fe wnaeth pandemig Covid-19 roi teuluoedd o dan lawer o bwysau.
- Mae cost bwyd, tanwydd a thai wedi cynyddu'n fawr.
- Nid yw cyflogau pobl wedi cynyddu digon i dalu'r costau hyn.
- Mae gan awdurdodau lleol lai o arian i redeg gwasanaethau, ond mae angen cymorth ar fwy o bobl.
- Mae gan Gymru lai o gyllid oherwydd Brexit.

**Rydyn ni'n mynd i ysgrifennu Strategaeth Tlodi Plant newydd er mwyn i ni allu brwydro yn erbyn tlodi a chreu Cymru gryfach a gwell i bawb.**

Rydyn ni eisiau helpu pobl yng Nghymru, ond dim ond Llywodraeth y DU all newid rhai pethau. Mae hynny'n cynnwys y budd-daliadau mae pobl yn eu cael, trethi a'r arian rydyn ni'n ei gael i helpu pobl.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth yn eich barn chi ddylai fod yn y Strategaeth Tlodi Plant newydd:**

- **beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?**
- **beth sy'n bwysig?**
- **ble ddylem ni ganolbwyntio'r mwyaf o amser a'r mwyaf o egni?**

**Atebwch y cwestiynau a'n helpu ni i frwydro yn erbyn tlodi yng Nghymru!**



# Sut mae tlodi yn effeithio ar fywyd!



Rydyn ni wedi bod yn defnyddio banciau bwyd pan nad oes gennym ni ddigon o arian.



Mae ein tŷ yn oer, felly rydyn ni'n gwisgo ein cotiau y tu mewn hefyd.



Dydw i ddim yn gofyn am bethau fel dillad newydd... rwy'n gwybod bod arian yn dynn.

Ni all fy rhieni fforddio tripiau ysgol.





Rydyn ni'n stopio yn y ganolfan hamdden ar ôl ysgol ac yn cael cawod yno.

Nid oes gennym ni gyfrifiadur, felly mae'n anodd ei helpu gyda gwaith cartref.



# 1. Siarad am deuluoedd yn cael digon o arian ar gyfer bwyd, gwres a diwallu eu hanghenion.

Mae yna fudd-daliadau a chefnogaeth, ond nid yw rhai teuluoedd yn gwybod amdanyn nhw.

Rydyn ni am sicrhau bod pob teulu yn gwybod sut:

- i hawlio budd-daliadau fel nad ydynt yn colli allan ar arian
- i gael help gyda chostau bwyd, tanwydd a thai
- i gael help gyda chostau dillad babanod, gwisg ysgol a chotiau gaeaf
- i gael cynhyrchion mislif am ddim yn eu cymunedau
- i hawlio arian brys a chymorth os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd.

Rydyn ni hefyd eisiau i wasanaethau a sefydliadau ei gwneud yn haws i deuluoedd gael cefnogaeth.



**Meddwl am arian a chymorth.**

**Pa 3 pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?**
(Cofiwch, dim ond Llywodraeth y DU all gynyddu budd-daliadau neu ostwng trethi).

# 2. Siarad am helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi.

Mae helpu teuluoedd allan o dlodi yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod teuluoedd:

- yn cael cymorth yn gyflym, ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn
- yn cael cymorth i mewn i waith
- yn cael cymorth i hawlio unrhyw fudd-daliadau mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw
- yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau
- yn cael cyfleoedd i gael swyddi sy'n talu'n dda
- yn cael cymorth gyda chostau gofal plant a chludiant.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn cael y cymorth maen nhw ei i ddysgu
- yn cael cymorth i gyrraedd eu nodau.

**Rydyn ni am i bawb gael cyfleoedd i fynd allan o dlodi.** Dydyn ni ddim am i unrhyw un golli allan oherwydd anabledd, ethnigrwydd, rhyw, rhywioldeb neu unrhyw reswm arall.



**Meddwl am helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi..**

**Pa 3 pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?**

# 3. Siarad am gefnogi plant a phobl ifanc i gael eu hawliau a chyrraedd eu nodau.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau, dim ots pwy ydyn nhw, lle maen nhw'n byw neu beth maen nhw'n credu ynddo. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Gall tlodi atal plant a phobl ifanc rhag mwynhau eu hawliau.**

Rydyn ni am i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael eu hawliau:

- i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- i fwynhau dysgu, a chael yr addysg orau bosibl
- i fwynhau bywyd iach, bod yn ddiogel rhag niwed a chael eu trin yn deg
- i gael chwarae a chael hwyl
- i gael eu clywed a chael eu trin â pharch
- i gael cartref a chymuned sy'n lle braf i dyfu i fyny
- i gael yr hyn maen nhw ei angen i oroesi a datblygu.

Byddwn yn sicrhau bod y strategaeth hon yn cysylltu â chynlluniau eraill sydd gennym ni i amddiffyn hawliau plant.



## Meddwl am hawliau plant a thlodi.

**Pa 3 pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?**

# 4. Siarad am drin plant, pobl ifanc a theuluoedd gydag urddas a pharch.

Weithiau mae pobl yn cael eu trin yn annheg neu'n wynebu stigma oherwydd nad oes ganddyn nhw lawer o arian. **Dydyn ni ddim am i unrhyw un gael ei drin yn wahanol oherwydd tlodi.**

Rydyn ni eisiau sicrhau bod yr holl wasanaethau a staff:

- yn trin pobl yn deg a gyda pharch
- ddim yn gwneud bywyd yn anoddach i deuluoedd mewn tlodi.

Rydyn ni am sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a'u teuluoedd:

- yn cael cefnogaeth dda ni waeth pwy ydyn nhw, na faint o arian sydd ganddyn nhw
- yn cael cefnogaeth gan systemau sy'n hawdd dod o hyd iddyn nhw a'u cael
- yn gallu dweud beth sy'n bwysig iddyn nhw
- yn cael eu clywed ac yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



**Meddwl am drin pawb â pharch ac urddas.**

**Pa 3 pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?**

# Un peth olaf

**A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano?**









## Diolch am gymryd rhan

Byddwn ni'n gwrando ar bopeth y byddwch chi'n ei ddweud wrthym ni ac yn ei ddefnyddio i'n helpu ni i ysgrifennu ein Strategaeth Tlodi Plant newydd.

**Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y strategaeth hon, sut hoffech chi i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi?**

